



Daeth Cyngor Tref y Rhyl â'r heulwen i siopwyr ac ymwelwyr i ddathlu Dydd Gwyl Dewi.

Gyda help gan Gôr Cymunedol Ghostbuskers a dau gennin Pedr anferth ar stiltiau, bu i'r cyngor tref ddangos y drws i Storm Jorge i gynnig diwrnod braf i siopwyr ac ymwelwyr.

Roedd Ghostbuskers yn perfformio caneuon yn fyw ac roedd y cerddwyr stiltiau yn dosbarthu baneri a chennin Pedr go iawn.

Roedd maer y Rhyl, y Cyngorydd Ellie Chard a'i chyd-gynghorwyr wrth law i ledaenu llawenydd.

Meddai'r Cyngorydd Chard: "Efallai bod y tywydd wedi ein bygwth, ond roeddem yn benderfynol o fynd ymlaen â phopeth i geisio diddanu pobl ar ôl ychydig o wythnosau diflas, llwyd a gwlyb.

"Roedd y cennin Pedr anferth yn codi gwen ac yn llachar iawn ar y stryd fawr gyda phobl yn stopio i dynnu lluniau. Trwy ddsbarthu cennin Pedr i bobl, roeddem yn rhoi ychydig o heulwen iddynt fynd adref gyda nhw."

Bydd y digwyddiad nesaf ar ddydd Llun Ebrill 13, gyda hwyl y Pasg ar y Stryd Fawr.

